


YSGOLION YR 21AIN GANRIF



ATODIAD B - ASESIAID O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad yma ar gael ar y dudalen 'Cymryd Rhan' ar wefan y Cyngor

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion - 2018 (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan fod pob un yn cynnwys gwybodaeth a themâu trawsbynciol.

Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys: 'symud unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd'.

Y cynnig yw cynnal newid rheoledig i:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy drosglwyddo'r ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd. Cynigir adeiladu'r adeilad ysgol newydd ar y tir i'r ochr ogleddol o Grib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol. Cynigir y bydd y newid a reoleiddir yn cael ei wneud erbyn mis Mawrth 2024.

Dylid cynnal ymgynghoriad ar gyfer y cynnig rhwng 1 Mawrth 2021 a 30 Ebrill 2021. Cafodd Dogfen Ymgynghori fanwl ei rhannu gyda'r holl randdeiliaid rhagnodedig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma yn atodiad i'r brif ddogfen honno.

Y Cynnig

Y cynnig yw symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad ysgol newydd sbon ar safle newydd. Cynigir adeiladu'r adeilad ysgol newydd ar y tir i'r ochr ogleddol o Grib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol. Fydd dim newidiadau i ddalgylch YGG Llyn y Forwyn. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd eisiau addysg gynradd cyfrwng Gymraeg. Ei nifer derbyn arfaethedig fyddai 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 210 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin). Amcangyfrifir mai £8.5 miliwn fydd cost y prosiect. Bydd yr elfen gyfalaf yma o'r cynnig yn cael ei hariannu'n llawn gan Raglen Buddsoddi Cyfalaf y Cyngor.

Effaith ar y Gymuned

Dyma nodi yma y penderfynwyd bod effaith y cynigion ar y gymuned yn effaith gadarnhaol. Dyw'r cynnig ddim yn cynnwys cau adeilad na chyfleusterau'r ysgol, dim ond adleoli i safle newydd, cwbl hygyrch. Bydd cynnwys cyfleusterau i'r gymuned yn adeilad newydd yr ysgol yn sicrhau gwell cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.

Y cynnig yw adeiladu ysgol gynradd Gymraeg bwrpasol newydd yn lle YGG Llyn y Forwyn ar gyfer y pentrefi yng Nghwm Rhondda Fach. Cynigir adeiladu'r

adeilad ysgol newydd ar y tir i'r ochr ogleddol o Grib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r gymuned gyfan allu defnyddio'r cyfleusterau newydd gan gryfhau perthnasoedd a llwyr intigreiddio'r ysgol yn rhan o'r gymuned. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys man chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm ar gyfer disgyblion 8 oed a hŷn ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion newydd gynnwys ardaloedd chwarae meddal - fel arfer man glaswellt - lle gall disgyblion eistedd a chymdeithasu, ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a man dan gysgod i ategu'r ardaloedd chwarae meddal o amgylch safle'r ysgol. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal ysgolion coedwig a fydd yn cynnig gofod i ddysgu yn yr awyr agored ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr i ddarparu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes trwy gyfrwng Cymraeg, gan hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol, a mynediad at TGCh newydd a fydd yn rhoi cyfleoedd i bob disgybl lleol gyrraedd ei lawn botensial

Bydd yr ysgol newydd yn hygyrch ac yn bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llawn. Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llawn.

Bydd Cylch Meithrin newydd hefyd yn rhan o safle newydd yr ysgol, gyda sesiynau Cylch Meithrin cyn-ysgol ar gael i blant 2 i 3 oed. Mae'r ddarpariaeth yma eisoes yn gweithredu ar safle presennol yr ysgol. Serch hynny, gan fod y lle sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r niferoedd yn gymharol isel. Rydyn ni'n rhagweld y bydd gallu cynnig y ddarpariaeth yma mewn cyfleuster newydd sbon yn rhan o safle YGG Llyn y Forwyn yn annog nifer y disgyblion i gynyddu ac yn cynnig gofal cofleidiol pwysig i rieni a gwarcheidwaid mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd.

Newidiadau i Ddalgylchoedd

Bwriad y cynnig yma yw gwella'r adeilad a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch YGG Llyn y Forwyn sydd eisiau addysg cynradd cyfrwng Cymraeg. Fydd dim newidiadau i ddalgylch YGG Llyn y Forwyn.

Mae 95% o'r disgyblion sy'n mynd i YGG Llyn y Forwyn yn byw yn y dalgylch, ac mae 5% o'r disgyblion yn byw y tu allan i'r dalgylch. Ni ddylai fod unrhyw effaith ar y data yma o ystyried nad oes unrhyw newidiadau ar y gweill ar gyfer dalgylch yr ysgol.

Goblygiadau Teithio a Thrafnidiaeth

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag YGG Llyn y Forwyn wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Mae 65% o'r disgyblion sy'n mynychu YGG Llyn y Forwyn ar hyn o bryd yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol ac o ystyried y lleoliad newydd, mae disgwyl y bydd y ganran yma'n aros yr un fath, er y bydd rhai o'r plant sy'n defnyddio'r cludiant yma ar hyn o bryd bellach yn byw o fewn pellter cerdded, ac eraill bellach yn byw mewn cartrefi sy'n rhy bell ar gyfer cerdded i'r ysgol.

Bydd asesiad o'r effaith ar y traffig, ynghyd ag archwiliad o'r llwybrau cerdded diogel i'r ysgol, yn cael ei gynnal, a bydd unrhyw welliannau sy'n cael eu hargymell i ddiogelwch disgyblion, staff, a rhieni/gwarcheidwaid sy'n teithio i safle'r ysgol yn cael eu gwneud. Mae safle newydd yr ysgol ychydig oddi ar y briffordd ac felly mae'n agos iawn at arhosfan bysiau, sydd ychydig y tu allan i ffin y safle. Mae Stagecoach yn rhedeg dau wasanaeth bws rheolaidd sy'n teithio trwy Gwm Rhondda Fach, a fydd yn mynd heibio'r ysgol bob 20 munud. O ganlyniad, mae'r safle llawer mwy hygyrch o ran y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael.

'Tu allan i oriau ysgol' – Defnydd Presennol

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, bydd yr holl weithgareddau sy'n cael eu cynnal cyn ac ar ôl ysgol yn YGG Llyn y Forwyn ar hyn o bryd yn parhau, a gobeithiwn, o ystyried y cyfleusterau newydd, fydd y darpariaethau yma'n tyfu. Yn ogystal, byddai'r clwb brechwast sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd gan YGG Llyn y Forwyn yn parhau. Byddai'r holl glybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan YGG Llyn y Forwyn yn parhau i gael eu cynnig. Ymhlith y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar ôl ysgol ar hyn o bryd mae:

- Clybiau chwaraeon, gan gynnwys pêl-droed a phêl-rwyd
- Celf a chrefft

Serch hynny, dylid nodi nad yw'r clybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol ar hyn o bryd oherwydd yr ardal chwarae gyfyngedig a graddfa serth y tir, ac felly mae staff yr ysgol yn defnyddio'r parc lleol ar gyfer y gweithgareddau yma.

Bydd symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad newydd sbon ar safle newydd yn caniatáu'r ysgol i gynnal rhagor o weithgareddau o'r fath. Bydd defnydd gan y gymuned a thrydydd parti o gyfleusterau'r ysgol hefyd yn cael ei annog, a bydd yr ysgol wedi'i chynllunio i fod yn ysgol gwbl hygyrch sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y gymuned. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Byddai unrhyw ddefnydd o'r ysgol gan grwpiau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, fel achlysuron wedi'u trefnu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, yn parhau i gael ei gynnig gan yr ysgol pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt.

Effaith ar iechyd a lles

Bydd yr ysgol newydd yn ysgol fodern, liwgar, ac yn amgylchedd ysgol ar gyfer y 21^{ain} Ganrif. Nodwyd y bydd gan hyn effaith gadarnhaol ar iechyd a lles staff a disgyblion, o ystyried yr heriau ar safle presennol yr ysgol gyda'r cyfleusterau allanol cyfyngedig a chyflwr gwael yr adeilad presennol.

Bydd adeilad newydd yr ysgol yn addas i'r diben ac yn cyflwyno meysydd addysgu a dysgu hyblyg er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd ar gyfer Cymru.

Bydd y gofodau awyr agored yn cael effaith cadarnhaol sylweddol ar iechyd a lles staff a disgyblion. Bydd gan safle newydd yr ysgol fannau chwarae awyr agored newydd, ystafell ddosbarth awyr agored, ardal ysgolion y goedwig ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA), a bydd pob ardal yn gwbl hygyrch. Mae hyn yn gwbl wahanol i'r cyfleusterau awyr agored presennol sydd ar safle presennol yr ysgol.

Bydd y buddion cadarnhaol yma i gymuned yr ysgol hefyd o fantais i'r gymuned leol, gan y bydd y cyfleusterau hyn hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned. Bydd

yr ysgol yn cael cymorth i sefydlu cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol i sicrhau bod modd i bawb elwa o'r buddsoddiad cadarnhaol yma.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut mae'r cynnig yma'n cyfrannu at y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cymunedau diogel

Mae'r safle wedi'i ddylunio i gydymffurfio â dull 'Diogel drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn gwbl ddiogel gyda chamêrau teledu cylch cyfyng. Bydd yr ystafell gymunedol yn yr ysgol newydd yn cael ei dylunio er mwyn bod modd i bobl wneud defnydd o'r ystafell heb gymysgu gyda'r staff a disgyblion.

Bydd gan y safle faes parcio pwrpasol a baeau bysiau trafniadaeth i'r ysgol ar y safle, gan wneud y llwybr o'r man gollwng ar gyfer bysiau i'r ysgol yn fwy diogel.

Gan fod yr ysgol yn aros yn yr un dalgylch, bydd y cysylltiad presennol gyda'r heddlu lleol a'r Swyddog Cymorth yn y Gymuned yr Heddlu yn parhau.

O ystyried lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd nid oes unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y gymuned, i'r gwrthwyneb, bernir y bydd yr ysgol sydd newydd ei hadeiladu, yn ei lleoliad newydd, yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch y gymuned.